



Rheoliadau Rheoli Llygredd (Storio Olew) (Cymru) 2016

Mawrth 2016

Fe'u hadwaenir fel y Rheoliadau Storio Olew neu Rheoliadau Storio Olew Cymru, ac mae'r rheoliadau hyn yn ei gwneud yn ofynnol i unrhyw un yng Nghymru sy'n storio mwy na 200 litr o olew ddarparu cyfleusterau storio mwy diogel ar gyfer tanciau, drymiau, cynwysyddion swmp canolradd (IBC's) a bowserau symudol. Mae hyn i atal olew rhag dianc i'r amgylchedd.

Mae'r ddogfen hon yn cynnwys cwestiynau ac atebion ynglŷn â **Rheoliadau Rheoli Llygredd (Storio Olew) (Cymru) 2016**.

Os ydych am ddarllen y rheoliadau yn eu cyfanrwydd, fe gewch o hyd iddynt yn <http://www.legislation.gov.uk/cy/wsi/2016/359/contents/made>

Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi canllawiau ar y Rheoliadau:

<http://gov.wales/topics/environmentcountryside/epq/waterflooding/oil-storage-standards/?lang=cy>

Mae arferion da i'ch helpu i gydymffurfio ar gael yn:

- [Above ground oil storage: GPP 2](http://www.netregs.org/media/1299/gpp-2-pdf.pdf) (gweler Netregs yn: <http://www.netregs.org/media/1299/gpp-2-pdf.pdf>)
- [Drums and intermediate bulk containers: PPG 26](http://sepa.org.uk/media/60190/ppg-26-safe-storage-drums-and-intermediate-bulk-containers.pdf) (gweler Netregs yn: <http://sepa.org.uk/media/60190/ppg-26-safe-storage-drums-and-intermediate-bulk-containers.pdf>)

Cofiwch fod rheoliadau a safonau eraill yn berthnasol i storio olew, ac nad yw'r rhain yn cael eu gorfodi gennym ni. Er enghraifft, [Rheoliadau Adeiladu](#), [Rheoliadau Storio Olew Lloegr](#) (gweler: <https://www.gov.uk/oil-storage-regulations-and-safety/overview>), [Rheoliadau Storio Olew Gogledd Iwerddon](#), [Rheoliadau Storio Olew yr Alban](#) a deddfwriaeth trwyddedu petroliwm.

Cynnwys

Eich cyfrifoldeb chi yw sicrhau bod eich cyfleusterau storio olew'n cydymffurfio â'r holl ddeddfwriaeth berthnasol.

- [A yw'r rheoliadau'n berthnasol i chi?](#)
Dysgwch a yw Rheoliadau Rheoli Llygredd (Storio Olew) (Cymru) 2016 yn berthnasol i'ch cartref neu eich busnes.
- [Eithriadau](#)
Mae'r rheoliadau'n berthnasol i'r rhannau fwyaf o gyfleusterau storio olew, ond mae rhai eithriadau – dysgwch a yw eich cyfleusterau storio olew'n cael eu heithrio.
- [Cynwysyddion olew](#)
Dysgwch sut mae'r rheoliadau'n berthnasol i fathau gwahanol o gynwysyddion.
- [Cyfyngiant eilaidd](#)
Dysgwch sut mae'r rheoliadau'n berthnasol i gyfyngiant eilaidd.

- **Offer cynorthwyol, pibwaith a phympiau**

Dysgwch am offer cynorthwyol, pibwaith a phympiau, a Rheoliadau Rheoli Llygredd (Storio Olew) (Cymru) 2016.

- **Gorfodi**

Dysgwch am y cosbau am fethu â chydymffurfio â'r rheoliadau.

Cafodd y cwestiynau a'r atebion hyn eu hysgrifennu yn ystod 2016.

A yw'r rheoliadau'n berthnasol ichi?

Yn ôl i'r Dudalen Gynnwys

Dysgwch a yw Rheoliadau Rheoli Llygredd (Storio Olew) (Cymru) 2016 yn berthnasol i'ch cartref neu eich busnes.

Mae'r Rheoliadau'n ei gwneud yn ofynnol i unrhyw un sy'n storio mwy na 200 litr o olew yng Nghymru ddarparu cyfleusterau storio mwy diogel ar gyfer tanciau, drymiau, cynhwysyddion swmp canolradd (IBCs) a bowserau symudol, i atal olew rhag dianc i'r amgylchedd.

Ym mha le y maent yn berthnasol?

Mae'r rheoliadau'n berthnasol yng Nghymru yn unig.

Mae Rheoliadau Rheoli Llygredd (Storio Olew) (Lloegr) 2001 yn berthnasol yn Lloegr. Mae ganddynt rai gofynion gwahanol i Rheoliadau Storio Olew Cymru. Os ydych yn storio olew yn Lloegr, dylech wirio'r wefan GOV.UK am fanylion.

- [GOV.UK, Storing oil at your home or business](#)

Mae Rheoliadau yr Amgylchedd Dŵr (Storio Olew) (yr Alban) 2006 yn berthnasol yn yr Alban. Mae'r rheoliadau hyn yn wahanol i Rheoliadau Storio Olew Cymru, ac os ydych yn storio olew yn yr Alban dylech wirio wefan Asiantaeth Diogelu Amgylchedd yr Alban (SEPA) am fanylion:

- [SEPA](#)

Mae Rheoliadau Rheoli Llygredd (Storio Olew) (Gogledd Iwerddon) 2010 yn berthnasol yng Ngogledd Iwerddon. Mae ganddynt rai gofynion gwahanol i Rheoliadau Storio Olew Cymru. Os ydych yn storio olew yng Ngogledd Iwerddon, dylech wirio wefan Asiantaeth yr Amgylchedd Gogledd Iwerddon (NIEA) am fanylion:

- [NIEA](#)

Pryd maent yn berthnasol?

Bydd y Rheoliadau hyn yn dod i rym mewn tri cham pan fyddant wedi cael eu cymeradwyo gan Lywodraeth Cymru. Maent fel a ganlyn:

- Bydd yn rhaid i danciau sy'n cael eu gosod ar ôl i'r Rheoliadau ddod i rym ar 15 Mawrth 2016 gydymffurfio â'r Rheoliadau o'r dyddiad y maent yn cael eu gosod.
- Bydd yn rhaid i danciau sy'n bodoli eisoes sy'n peri risg sylweddol (h.y. cyfleusterau wedi'u lleoli o fewn deng medr i unrhyw ddŵr wyneb neu wlyb tir, neu o fewn 50 medr i dwll turio neu ffynnon) gydymffurfio ymhén dwy flynedd (h.y. erbyn 15 Mawrth 2018).
- Bydd yn rhaid i danciau sy'n bodoli eisoes nad ydynt yn peri risg sylweddol gydymffurfio ymhén pedair blynedd (h.y. erbyn 15 Mawrth 2020).

Diffiniadau o 'gael ei ddefnyddio', 'storio' ac 'olew'

Nid oes diffiniad cyfreithiol o 'gael ei ddefnyddio', 'storio' ac 'olew' yn Rheoliadau Storio Olew Cymru.

At ddibenion y rheoliadau, fe fyddem yn:

- Edrych ar fanylion sy'n benodol i'r safle
- Ystyried y risgiau ar y safle
- Gwirio pa gamau sy'n cael eu cymryd i leihau'r perygl o ddigwyddiadau posibl

Fel arfer, os yw olew'n cael ei ddefnyddio ond nid yw'n cael ei storio, mae'n debygol y byddai'n cael ei eithrio o Reoliadau Storio Olew Cymru, gyda'r eithriad nodedig o olew mewn tanciau cynorthwyol sy'n gysylltiedig â newidyddion – byddai angen cyfyngiant eilaidd ar y rhain. Nodwch hefyd, os yw'n amlwg bod tancer ffordd yn cael ei ddefnyddio i storio olew ar y safle, yn hytrach na'i gludo, bydd eithriad yn peidio â bod yn berthnasol. Gweler **A allaf storio olew mewn tancer ffordd heb gyfyngiant eilaidd?** isod.

Nid oes diffiniad penodol i 'olew' yn Rheoliadau Storio Olew Cymru. Mae hyn oherwydd bod y rheoliadau'n cynnwys amrediad eang o olewau a'u cynhyrchion cysylltiedig a allai gynnwys, er enghraifft, hylifau torri a pheiriannu sy'n seiliedig ar olew.

Pa fathau o olew sy'n cael eu cynnwys?

Mae'r rheoliadau'n cynnwys pob math o olew ar wahân i fitwmen. Mae hyn yn cynnwys petrol, disel, biodanwyddau, olewau llysiâu, olew gwastraff, olewau synthetig ac olewau mwynau, ac olewau a ddefnyddir yn hydoddyddion. Mae olewau bioddiraddadwy hefyd yn cael eu cynnwys.

Mae olew mwynau gwastraff hefyd yn cael ei gynnwys gan eithriad S1 yn Adran 2 Pennod 5 Atodlen 3 Rheoliadau Trwyddedu Amgylcheddol 2010. Mae'n rhaid i gyfleusterau gwastraff olew dros 3m³ dderbyn Trwydded Amgylcheddol gennym ni – gweler 'Safleoedd a reoleiddir o dan Reoliadau Trwyddedu Amgylcheddol' isod.

Ystyrir bod cymysgedd o betrol a disel o ganlyniad i roi'r tanwydd anghywir mewn cerbydau'n olew gwastraff, oherwydd nid yw'n bosibl bellach ei ddefnyddio'n danwydd cerbyd. Mae'r tanwydd cymysg hwn yn cael ei reoleiddio yn yr un modd â'r olew mwynau gwastraff uchod.

Mae olew sydd wedi cael ei ddefnyddio'n flaenorol, er enghraifft, olew sydd wedi cael ei ddraenio o injans cerbydau, ac sy'n cael ei ddefnyddio mewn gwresogyddion gofod yn olew gwastraff. Os ydych yn storio hwn lle mae'n cael ei gynhyrchu (wedi'i wagio o'r cerbydau), mae eithriad lle nad oes angen ei gofrestru'n berthnasol o dan Baragraff 2 Rhan 3 Atodlen 25 Rheoliadau Trwyddedu Amgylcheddol 2010. Fodd bynnag, mae'n rhaid i chi storio'r olew hwn yn unol â Rheoliadau Storio Olew Cymru.

Beth nad yw'n cael ei gynnwys yn y rheoliadau?

Mae'r rheoliadau, a [chanllawiau Llywodraeth Cymru](#), yn hepgor bitwmen o'r rheoliadau yn benodol, oherwydd ei fod yn soled ar dymreddau amgylchynol. Mae rhai cynhyrchion sy'n seiliedig ar hydrocarbon nad ydym yn ystyried eu bod yn cael eu cynnwys, er enghraifft:

- Nwy Petrolewm Hylifol (LPG)
- Hydoddyddion nad ydynt yn seiliedig ar olew, er enghraifft, trichloroethylen
- Hydrocarbonau aromatig, er enghraifft bensen a tholwen

Mae'n bosibl y byddwn yn defnyddio pwerau rheoleiddiol eraill i reoli'r risg o lygredd o ganlyniad o storio'r cynhyrchion hyn, er enghraifft Rheoliadau Gwaith Gwrthlygredd, Rheoliadau Dŵr Daear neu sancsiynau sifil.

Olew sy'n cael ei storio mewn marinas, ar y glan neu ar bontynau

Rhaid i gyfleusterau storio olew mewn marinas gydymffurfio â Rheoliadau Storio Olew Cymru. Rydym yn argymhell bod tanciau sy'n agored i lanwau uchel neu lifogydd yn cael eu cysylltu i'w hatal rhag codi neu arnofio i ffwrdd. Gofynnwch i osodwr eich tanc am gyngor ynglŷn â sut i wneud hyn yn ddiogel.

Mae cyfleusterau storio olew ar fadau camlas mewn marinas arfordirol yn dod o dan awdurdod yr harbwr feistr, ac nid yw'r rhain yn cael eu cynnwys yn y rheoliadau hyn.

Mae cyfleusterau storio gwirod petrolewm yn cael eu rheoli gan Reoliadau Petrolewm (Cydgrynhoi) 2014 a Rheoliadau Sylweddau Peryglus ac Atmosfferau Ffrwydrol 2002. Cyn y cewch chi storio

gwirod petrolewm, rhaid bod gennych dystysgrif storio, sydd ar gael gan yr Awdurdod Rheoli Petrolewm, sy'n gallu bod adran safonau masnachu'r cyngor sir, y gwasanaeth tân neu adran iechyd yr amgylchedd.

Mae gofynion y rheoliadau'n berthnasol i 'gychod gwasanaethu' sy'n cael eu defnyddio i ddsbarthu olew i ail-lenwi tanciau tanwydd cychod cwsmeriaid. Nid ydynt yn cael eu hystyried yn safleoedd 'dosbarthu olew ymhellach' oherwydd nid hyn yw eu hunig ddiben, gan eu bod yn darparu olew i gwsmeriaid a fydd yn ei ddefnyddio.

Cychod preswyl sy'n cael eu defnyddio'n anheddau domestig

At ddibenion Rheoliadau Storio Olew Cymru, rydym yn ystyried bod cychod preswyl neu fadau lle mae rhywun yn byw'n breswylfa breifat, a gallant gael eu hystyried yn 'safle'. Mae'r term 'safle' yn cael ei ddiffinio gan Ddeddf yr Amgylchedd 1995 ac mae'n cynnwys cychod.

Felly, mae'n rhaid i danciau storio olew ar gychod preswyl sy'n cael eu gosod ar ôl 15 Mawrth 2016 gydymffurfio â'r Rheoliadau. Bydd tanciau a osodwyd cyn y dyddiad hwnnw'n cael eu heithrio nes iddynt gael eu newid.

Safleoedd sy'n cael eu rheoleiddio o dan Reoliadau Trwyddedu Amgylcheddol – cyfundrefnau Rheoli Llygredd Integredig neu Atal Llygredd gynt

Os yw'r drwydded ar gyfer safle'n cynnwys safonau storio olew yn benodol, mae'r gosodiad yn cael ei eithrio o Reoliadau Storio Olew Cymru. Ein polisi ni yw rheoleiddio unwaith yn unig. Cynhwysir amod safonol mewn trwyddedau sy'n nodi y dylai cyfleusterau storio olew yng Nghymru gydymffurfio â Rheoliadau Storio Olew Cymru. Dylai awdurdodau lleol sy'n gorfodi Rheoliadau Trwyddedu Amgylcheddol Rhan A(2), Gosodiadau, a Rhan B, Prosesau, wneud yr un peth.

Pan nad yw safonau Rheoliadau Storio Olew Cymru yn ddigon caeth i leihau'r risg o ddifrod amgylcheddol ar y safle'n ddigonol, bydd y drwydded yn nodi'r mesurau uwchben a thu hwnt i safonau Rheoliadau Storio Olew Cymru sydd eu hangen. Bydd y rhain yn cael eu gorfodi o dan y gyfundrefn berthnasol.

Pan nad yw safonau'r rheoliadau'n briodol am resymau technegol, byddwn yn cytuno ar fesurau sy'n benodol i'r safle, i gyflawni amcanion Rheoliadau Storio Olew Cymru trwy ddefnyddio dulliau gwahanol. Byddwn yn ystyried y risgiau i'r amgylchedd a'r costau i'r gweithredwr.

Safleoedd y Goron

Rhaid i safleoedd y Goron gydymffurfio â Rheoliadau Storio Olew Cymru. Er na chawn erlyn am ddiffyg cydymffurfio, gallwn ofyn i'r Uchel Lys am ddatganiad bod y Goron wedi ymddwyn mewn modd anghyfreithlon.

Storio olew mewn meysydd awyr

Mae'n bosibl y bydd yn rhaid i olew sy'n cael ei storio uwchlaw'r tir mewn meysydd awyr gydymffurfio â Rheoliadau Storio Olew Cymru – mae'n dibynnu ar bwy sy'n berchen ar y cyfleusterau storio.

Mae olew sy'n eiddo cwmni olew (yn ei ddepo ei hun ar y maes awyr neu'n gyfagos), ac sy'n cael ei werthu i gwmnïau hedfan i'w ddefnyddio mewn awyrennau, yn cael ei ystyried yn olew sy'n cael ei storio er mwyn ei ddsbarthu ymhellach. Mae'n cael ei eithrio o'r rheoliadau ond mae'n debygol y bydd yn ostyngedig i amodau gweithgareddau trwyddedig.

Mae olew y mae maes awyr, cwmni hedfan masnachol neu berchennog preifat yn berchen arno, sy'n cael ei ddefnyddio i lenwi ei awyrennau ei hun, yn cael ei ystyried yn olew sy'n cael ei storio

i'w ddefnyddio – nid i'w ddsbarthu ymhellach. Mae'r rheoliadau'n berthnasol ac mae'n rhaid darparu cyfyngiant eilaidd.

Gweler gwybodaeth am storio olew mewn tanceri ffordd ar y tudalennau cynwysyddion olew am ragor o wybodaeth:

- [Cynwysyddion olew](#)

Eithriadau

Yn ôl i'r Dudalen Gynnwys

Nid yw'r rheoliadau'n berthnasol i bob math o storio olew, felly dysgwch a yw eich cyfleusterau storio olew'n cael eu heithrio.

A yw saim yn cael ei eithrio o Reoliadau Storio Olew 2016?

Ddim o reidrwydd. Mae'n bosibl y byddwn yn gofyn i saim gael ei storio mewn hambwrdd diferu, ond rydym yn disgwyl i bob cynhwysydd fod o dan 200 litr neu i gael ei storio o dan do.

A yw hylifau trosglwyddo gwres yn dod o dan y rheoliadau?

Nac ydynt, mae'r olew yn y newidydd yn cael ei **ddefnyddio** yn hytrach na'i **storio**.

Ond ystyrir bod olew mewn tanciau storio swmp yn **olew sy'n cael ei storio** ac mae'n cael ei gynnwys yn Rheoliadau Storio Olew Cymru, oni bai bod yr eithriadau'n berthnasol.

Mae'n bosibl bod rhai tanciau uwchben newidydd yn dod o dan y categori hwn, os ydynt yn fwy na 200 litr ac wedi'u cysylltu'n uniongyrchol â'r newidydd â phibell fwydo unffordd o'r tanc i'r newidydd.

Os oes gan y newidydd danc ehangu, ystyrir bod y cynhwysydd yn rhan o'r newidydd, a bod yr olew yn cael ei ddefnyddio, ac mae'n cael ei eithrio o Reoliadau Storio Olew Cymru.

Fel arfer, nid yw newyddion sy'n aros i gael eu gosod neu eu gwaredu'n cael eu hystyried yn gynwysyddion sy'n storio olew.

A yw bitwmen a chynhyrchion bitwmen yn cael eu heithrio?

Ydynt, mae eithriad penodol ar gyfer bitwmen. Mae hyn oherwydd ei bod yn anymarferol darparu cyfyngiant eilaidd ar gyfer cynhyrchion sy'n soled neu bron â bod yn solet ar dymereddau amgylchynol.

Dylai cynhyrchion sy'n seiliedig ar fitwmen sy'n hylifol ar dymereddau amgylchynol gael eu storio yn unol â'r rheoliadau.

Beth yw adeilad?

Nid yw'r term 'adeilad' yn cael ei ddiffinio yn Rheoliadau Storio Olew Cymru, ond mae'n cael ei ddiffinio yn Rheoliadau Adeiladu 2000 fel adeilad parhaol neu dros dro, neu ran o adeilad. Mae'r diffiniad yn eithrio mathau eraill o strwythur.

Rydym yn dehongli bod y diffiniad hwn yn golygu strwythur ac iddo waliau a tho, yn hytrach na phabell ac iddi ffrâm neu do ar gynheiliaid.

Rhaid i gyfleusterau storio o fewn adeilad gydymffurfio â Rheoliadau Storio Olew Cymru. Mewn rhai achosion, mae'n bosibl bod yr adeilad yn darparu'r cyfyngiant eilaidd i atal olew rhag dianc i'r amgylchedd. Byddai asesiad risg syml yn dangos a fyddai olew'n dianc neu beidio. Er enghraifft, ystyriwch y risg o ollyngiadau trwy frics awyru, gosod plismyn cwsg yn rhwystrau wrth fynedfeydd, a'r angen i sicrhau bod y lloriau a'r waliau'n anathraidd i unrhyw olew sy'n cael ei golli.

Mae'n bosibl y bydd cyfyngiant eilaidd ar gyfer tanciau o fewn adeiladau'n ofyniad y rheoliadau adeiladu, er enghraifft, diogelwch tân. Rydym yn argymhell eich bod yn gwirio gyda'r awdurdod lleol i weld a yw hyn yn berthnasol i chi.

A yw Rheoliadau Storio Olew Cymru yn berthnasol i olew sy'n cael ei storio mewn generadur?

Nid yw'r rheolau storio olew yn berthnasol ond i eneraduron a'r cynwysyddion olew cysylltiedig lle mae olew'n cael ei **storio**, yn hytrach na'i **ddefnyddio**, a phan na fydd unrhyw eithriadau eraill yn

berthnasol. Os yw hynny'n bosibl, defnyddiwch generaduron sydd ar gael yn fasnachol sydd â chyfyngiant eilaidd mewnol ar gyfer y tanc storio neu'r tanc dydd.

Nid yw rheolau storio olew yn berthnasol i generaduron ar gyfer 'diwrnod o waith' pan fydd y generadur:

- yn cael ei gludo i leoliad gwaith bob dydd
- â chapasiti tanc o 200 litr neu lai
- yn defnyddio'r holl olew yn ystod diwrnod o gael ei ddefnyddio
- yn cael ei storio â thanc gwag pan nad yw'n cael ei ddefnyddio

Y mae rheolau storio olew'n berthnasol i:

Generaduron:

- sydd naill ai'n cael eu gludo i leoliad gwaith ac i ffwrdd bob dydd neu sy'n cael eu defnyddio'n barhaus, ac
- sydd â thanc dydd ac iddo gapasiti o fwy na 200 litr, a phan
- nad yw'r olew i gyd yn cael ei ddefnyddio mewn diwrnod o waith.

Generaduron wrth gefn nad ydynt yn cael eu defnyddio'n barhaus:

- sydd â thanc dydd ac iddo gapasiti o fwy na 200 litr, ac
- sy'n storio olew i'w ddefnyddio nes ymlaen.

Mae angen cyfyngiant eilaidd o 110% ar gyfer tanciau dydd y ddau fath o generadur uchod.

Tanciau storio:

- sy'n cyflenwi generadur (sy'n cael ei ddefnyddio'n llawn amser neu wrth gefn), neu
- sy'n cael eu defnyddio i lenwi tanciau dydd generaduron symudol eraill, ac
- sy'n dal mwy na 200 litr.

Mae'n arfer da darparu cyfyngiant eilaidd ar gyfer **pob** generadur a thanc a'u pibellau cysylltiedig i ddal unrhyw olew sy'n cael ei golli neu ei ollwng – ni waeth a ydych yn gorfod cydymffurfio â Rheoliadau Storio Olew Cymru neu beidio. Os nad oes ganddynt gyfyngiant eilaidd, mae'r potensial ar gyfer niwed i'r amgylchedd o ganlyniad i golli olew yn uchel.

Fel arfer, nid ystyrir tai generaduron yn adeiladau o dan y rheoliadau.

A yw olew sy'n cael ei storio ar safle dosbarthu'n cael ei eithrio o Reoliadau Storio Olew Cymru?

Ydy, mae safle dosbarthu'n cael ei eithrio os dosbarthu olew ymhellach yw prif fusnes y safle. Mae'r eithriad yn berthnasol i'r holl safle ac mae'r holl gyfleusterau olew uwchlaw'r ddaear yn cael eu heithrio.

Serch hynny, dylech ddilyn y gofynion yn y ddogfen 'Canllawiau amgylcheddol ar gyfer safleoedd dosbarthu petrolewm' sy'n cael eu cyhoeddi gan y Sefydliad Ynni a bodloni safonau Rheoliadau Storio Olew Cymru pan fydd hynny'n ymarferol, i leihau'r risgiau i'r amgylchedd.

A yw olew sy'n cael ei ddefnyddio mewn annedd ddomestig yn cael ei eithrio?

Nac ydy, rhaid i unrhyw danc newydd neu hen danc sy'n cael ei newid ar ôl 15 Mawrth 2016 gydymffurfio â Rheoliadau Storio Olew Cymru. Pe bai'r tanc yn cael ei ddefnyddio cyn y dyddiad hwnnw, mae'n parhau i gael ei eithrio nes iddo gael ei newid.

- Rydym yn argymhell eich bod yn darllen y wybodaeth 'Get to know your oil tank' sydd ar gael ar wefan yr Oil Care Campaign: [Get to know your oil tank](#)

Mae rheoliadau adeiladu hefyd yn berthnasol i'r holl danciau newydd, neu hen danciau sy'n cael eu newid, ar gyfer storio olew sy'n cael ei ddefnyddio ar gyfer gwres a choginio, ni waeth beth yw eu capasiti.

O dan Reoliadau Storio Olew Cymru:

- Ystyrir bod cartrefi gwyliau, llety gwely a brecwast a llety ar rent yn eiddo domestig.
- Byddai cyfleusterau olew ar gyfer tŷ ac ynddo swyddfa'n cael eu hystyried yn ddomestig, os yw'r adeilad yn cael ei ddefnyddio'n hollol neu'n bennaf fel annedd breifat.
- Nid yw cartrefi preswyl yn cael eu heithrio gan nad ydynt yn cael eu defnyddio'n hollol neu'n bennaf fel annedd breifat.

Rheoliadau Adeiladu

Mae tanciau newydd a hen danciau sy'n cael eu newid ar gyfer storio olew uwchlaw'r ddaear ar gyfer gwres a choginio'n cael eu cynnwys yn Rheoliadau Adeiladu 2010, Approved Document J.

- [Approved Document J 2010](#)

Hyd yn oed os yw'r cyfleusterau storio olew yn eich cartref yn cael eu heithrio ar hyn o bryd, dylech ddilyn y cyfarwyddyd ymarferol yn y ddogfen Cyfarwyddyd Atal Llygredd canlynol:

- [Above ground oil storage GPP2 \(PDF, 451KB\)](#)
- [\(Gweler hefyd: http://www.netregs.org.uk/media/1299/gpp-2-pdf.pdf\)](#)

Cydymffurfio â rheoliadau storio olew ar ffermydd

Mae darpariaeth Rheoliadau Rheoli Llygredd (Silwair, Slyri ac Olew Tanwydd Amaethyddol) (Cymru) 2010 (SSOTA) wedi cael eu diddymu a'u disodli gan Reoliadau Storio Olew Cymru.

Felly, mae'r Rheoliadau Storio Olew yn berthnasol i storio olew ar ffermydd, gan gynnwys storio olew sy'n cael ei ddefnyddio ar gyfer gwres a/neu bŵer ar safleoedd, fel y diffinnir gan Ddeddf Amaethyddol 1947, sy'n cynnwys garddwriaeth, tyfu ffrwythau, tyfu hadau, gerddi masnachol a thiroedd meithrin – a oedd yn cael eu cynnwys yn Rheoliadau SSOTA gynt.

Mae Rheoliadau Storio Olew Cymru yn gofyn am lefel uwch amddiffyn amgylcheddol, ac mae'n rhaid i berchnogion cyfleusterau storio olew ar ffermydd sicrhau eu bod yn cydymffurfio â'r safonau gofynnol newydd:

- Ar gyfer tanciau newydd o 15 Mawrth 2016
- Ar gyfer tanciau sy'n bodoli eisoes mewn lleoliadau sy'n peri risg sylweddol o 15 Mawrth 2018
- Ar gyfer pob tanc arall o 15 Mawrth 2020

Y Prif Wahaniaethau i Reoliadau SSOTA

Er bod y gofynion yn debyg i Reoliadau SSOTA at ei gilydd, mae rhai gwahaniaethau pwysig – er enghraifft, maent bellach yn berthnasol i bob cynhwysydd/cyfaint o olew dros 200 litr, ac mae bowserau symudol ac olew gwastraff, a oedd yn cael eu heithrio o dan Reoliadau SSOTA, bellach yn cael eu cynnwys. Mae olew sy'n cael ei ddefnyddio ar gyfer adeiladu neu mewn peiriannau fferm yn cael ei eithrio. Mae safle sy'n cael ei ddefnyddio'n bennaf at ddibenion domestig, e.e. ffermdy ac ynddo swyddfa sy'n cael ei defnyddio o bryd i'w gilydd, yn cael ei eithrio, oni bod tanc newydd yn cael ei osod neu hen danc yn cael ei

newid – ond mae adeiladau sydd wedi cael eu troi'n unedau gwyliau i'w gosod yn cael eu diffinio o dan ddefnydd busnes ac mae'r rheoliadau'n berthnasol.

A yw'r rheoliadau'n cynnwys olewau gwastraff?

Ydynt. Rhaid i gyfleusterau storio olew gwastraff gydymffurfio â safonau Rheoliadau Storio Olew Cymru. Mae hyn yn cynnwys olewau mwynau, olewau llysiâu, olewau synthetig ac olewau sydd wedi cael eu cymysgu o ganlyniad i roi'r tanwydd anghywir mewn cerbyd. Yn ogystal, mae olewau mwynau gwastraff yn cael eu rheoleiddio o dan y Rheoliadau Trwyddedu Amgylcheddol trwy naill ai trwydded neu eithriad.

Pan fydd trwydded yn cael ei dyroddi, byddwn yn cynnwys safonau storio cymharol yn amodau eich trwydded.

Ystyrir bod olew sydd wedi cael ei ddefnyddio'n flaenorol, er enghraifft, olew sydd wedi cael ei ddraenio o injans cerbydau, ac sy'n cael ei ddefnyddio mewn gwresogyddion gofod yn olew gwastraff, ac mae'n rhaid i'r cyfleusterau storio gydymffurfio â'r Rheoliadau Storio Olew. Os ydych yn storio hwn lle mae'n cael ei gynhyrchu (wedi'i wagio o'r cerbydau), mae eithriad yn berthnasol lle nad oes angen ei gofrestru o dan Baragraff 2 Rhan 3 Atodlen 25 y Rheoliadau Trwyddedu Amgylcheddol. Rhaid ichi storio'r olew hwn mewn man diogel lle nad yw'n gallu dianc.

A yw'r rheoliadau'n cynnwys bowserau symudol sy'n cael eu defnyddio ar safleoedd gwastraff trwyddedig?

Rhaid i fowserau symudol neu drelars storio sy'n cael eu defnyddio ar safleoedd gwastraff trwyddedig gydymffurfio â Rheoliadau Storio Olew Cymru.

Eglurhad ynglŷn â thanciau sydd o dan ddaear a'r rhai sydd wedi'u rhannol gladdu

Mae Rheoliadau Storio Olew Cymru yn eithrio unrhyw gynwysyddion sy'n 'hollol o dan ddaear' – gweler ein diffiniad isod. Nid oes rhaid i'r cynwysyddion hyn fodloni gofynion safonol Rheoliadau Storio Olew Cymru, ond dylid dilyn y canllawiau yn y ddogfen '[Groundwater Protection: Principles and Practice \(GP3\)](#)' – yn enwedig: Rhan 2, Adran D, Storage of Pollutants.

Nid ydym yn ystyried bod tanc sydd wedi'i rannol gladdu'n hollol o dan ddaear, ac mae'n rhaid i'r tanciau hyn fodloni Rheoliadau Storio Olew Cymru yn llawn.

Mae cyfleusterau storio o dan ddaear yn golygu lle na ellir gweld unrhyw ran o'r tanc ar unrhyw adeg, a/neu lle na ellir cael mynediad ato o lefel y ddaear. Nid yw hollol o dan ddaear yn golygu o dan lefel y ddaear o fewn adeilad, e.e. mewn seler, lle dylai unrhyw gyfleusterau storio olew gydymffurfio â Rheoliadau Storio Olew Cymru.

Ystyrir bod unrhyw danc sydd wedi'i osod yn y ddaear (wedi'i rannol gladdu) mewn system cyfyngiant eilaidd, a lle y gellir cael mynediad llawn ato, yn danc uwchlaw'r ddaear a bydd yn rhaid iddo gydymffurfio â'r Rheoliadau Storio Olew.

Sut mae Rheoliadau Storio Olew Cymru yn gweithio gyda safonau cynhyrchu tanciau Ewropeaidd eraill?

Mae safonau cynhyrchu tanciau Ewropeaidd eraill nad ydynt yn ei gwneud yn ofynnol i danciau fod â chapasiti cyfyngiant eilaidd o 110%.

Rhoddir blaenoriaeth i ofynion Rheoliadau Storio Olew Cymru ar gyfer storio olew yng Nghymru, oni bai bod y safonau Ewropeaidd yn cael eu cynnwys mewn deddfwriaeth. Rhoddir blaenoriaeth i deddfwriaeth (Deddfau, Rheoliadau, Gorchmynion) dros safonau wedi'u cyhoeddi mewn dogfennau anneddfwriaethol. Felly, mae darparu cyfyngiant eilaidd o 110% yn ofniad cyfreithiol y

mae'n rhaid ei fodloni, ond gellir rhoi tanc nad oes ganddo gyfyngiant eilaidd o 110% o fewn system cyfyngiant sy'n bodloni'r gofyniad.

Cynwysyddion olew

Yn ôl i'r Dudalen Gynnwys

Dysgwch sut mae'r rheoliadau'n berthnasol i fathau gwahanol o gynwysyddion.

Pa fathau o gynhwysydd olew sy'n cael eu cynnwys yn Rheoliadau Storio Olew Cymru?

Mae'r rheoliadau'n berthnasol i:

- Danciau (gallant fod yn barhaol neu dros dro)
- Drymiau sydd â chapasiti o fwy na 200 litr
- Cynwysyddion swmp canolradd (IBCs)
- Bowserau symudol

Gall cynwysyddion storio olew gael eu gwneuthur o amrywiaeth o ddeunyddiau, er enghraifft polyethylen neu fetel, ond fe ddylent i gyd fod wedi'u dylunio i ddal olew, ac mae'n rhaid iddynt fod yn 'addas i'r diben' pan fyddant yn cael eu defnyddio.

Rydym yn ystyried bod cynhwysydd swmp canolradd (IBC) yn gyfleuster storio parhaol ac mae'r gofynion ar gyfer tanciau wedi'u gosod yn berthnasol.

Darllenwch ein Canllawiau Atal Llygredd isod am fanylion ynglŷn â sut mae Rheoliadau Storio Olew Cymru yn berthnasol i'r cynwysyddion storio hyn:

- **Gweler:** <http://sepa.org.uk/media/60190/ppg-26-safe-storage-drums-and-intermediate-bulk-containers.pdf>

Sut rwy'n gwybod a fydd tanc yn cydymffurfio â'r rheoliadau?

Mae Safonau Prydeinig a safonau Cymdeithas Dechnegol Llosgi Olew sy'n golygu bod llawer o safonau gofynnol Rheoliadau Storio Olew Cymru yn cael eu bodloni pan fydd tanc wedi'i wneuthur yn unol â'r fanyleb. Mae'r rhain yn cynnwys y canlynol:

- Ar gyfer tanciau polyethylen: OFTEC OFS T100
- Ar gyfer tanciau dur: BS 799-5
OFTEC OFS T200

Ond, ni waeth pa mor dda yw gwneuthuriad tanc, mae agweddau eraill y bydd yn rhaid ichi eu hystyried i sicrhau bod eich tanc yn cydymffurfio â Rheoliadau Storio Olew Cymru. Mae'r rhain yn cynnwys y lleoliad, y defnydd o bwytiau cyplysu gosod a hambyrddau diferynnau pan fydd olew'n cael ei drosglwyddo i'r tanc, trefniadau cynnal a chadw, a diogelwch.

A yw Rheoliadau Storio Olew Cymru yn berthnasol i faint y tanc neu faint o olew sy'n cael ei storio ynddo?

Mae Rheoliadau Storio Olew Cymru yn berthnasol i **faint** y cynhwysydd yn hytrach na faint sy'n cael ei storio ynddo. Mae tanc storio olew â chapasiti o 1,000 litr, ac ynddo ddim ond 199 litr o olew wedi'i storio, yn cael ei gynnwys yn y rheoliadau.

Beth yw diffiniad bowser symudol?

At ddibenion y rheoliadau, mae diffiniad bowser symudol fel a ganlyn:

- Cynhwysydd olew na all symud o dan ei bŵer ei hun (nid ydym yn ystyried bod tancer ffordd anhyblyg neu gymalog yn fowser symudol)
- Wedi'i ddylunio ar gyfer storio a dosbarthu olew

- Sy'n gallu symud rhwng lleoliadau

Dylai dyluniad y browser symudod atal olew rhag cael ei golli o'r cynhwysydd os oes gwrthdrawiad neu ollyngiad, neu os yw'n rholio neu ddirywiad tebyg.

Mae'n bosibl bod gan fowserau symudol olwynion, neu eu bod yn cael eu symud ar gerbyd arall neu ganddo.

Mae'r rheoliadau'n nodi nad yw tanceri-dreolar sy'n cael eu tynnu gan danceri ffordd o faint tebyg yn fowserau symudol.

Mae llawer o fathau o fowserau â'u byndio eu hunain ar gael y dyddiau hyn. Mae'n rhaid cadw browserau nad ydynt wedi'u byndio mewn ardal a all ddal 110% o gapasiti'r browser pan fyddant yn cael eu defnyddio. Mae hambwrdd diferu â chapasiti o 25% yn dderbyniol ar gyfer drymiau sengl.

Noder ei bod yn bosibl bod deddfwriaeth Cludo Nwyddau Peryglus yn berthnasol os ydych yn defnyddio browser symudol ar ffyrdd cyhoeddus.

A allaf storio olew mewn tancer ffordd heb gyfyngiant eilaidd?

Mae tanceri ffordd yn cael eu dylunio i gludo olew – **nid** ar gyfer ei storio. Ni ddylech storio olew mewn tancer ffordd, oni bai eich bod yn darparu cyfyngiant eilaidd ar gyfer y tancer.

Mae'n bosibl y byddwn yn defnyddio ein pwerau o dan Reoliadau Hysbysiadau Gwaith Gwrthlygredd 1999 i ofyn am fesurau atal llygredd addas yn seiliedig ar y risgiau sydd ar y safle a'r costau/manteision i'r amgylchedd a'r perchennog, neu i atal eich gweithrediadau.

A yw'r rheoliadau'n berthnasol i danc gwag?

Mae'r rheoliadau wedi'u dylunio i atal olew rhag dianc i'r amgylchedd.

Bydd rhelyw olew ar waelod llawer o danciau sydd wedi cael eu rhoi o'r neilltu a allai beri llygredd.

Rydym yn argymhell bod tanciau segur yn cael eu datgomisiynu yn briodol a'u symud yn unol â dyletswydd gofal gwastraff.

Pan nad yw'n bosibl symud tanc sydd wedi'i roi o'r neilltu, dylid ei lenwi â deunydd a fydd yn sicrhau na fydd yn bosibl ei ddefnyddio eto.

Cyfyngiant eilaidd

Yn ôl i'r Dudalen Gynnwys

Dysgwch sut mae'r rheoliadau'n berthnasol i gyfyngiant eilaidd.

Pa mor fawr y mae'n rhaid i'm cyfyngiant eilaidd ar gyfer cynhwysydd olew sengl fod?

Ar gyfer un tanc, bowser symudol neu gynhwysydd swmp canolradd (IBC), rhaid i'r cyfyngiant eilaidd allu dal 110% o'r cyfaint y gall y cynhwysydd ei ddal.

Gallech storio un drwm storio ar hambwrdd diferu. Rhaid bod yr hambwrdd diferu'n gallu dal 25% o holl gyfaint y drwm – nid 25% o'r olew sydd ynddo.

Pa mor fawr y mae'n rhaid i'm cyfyngiant eilaidd fod os oes gennyf fwy nag un cynhwysydd mewn ardal storio?

Mwy nag un tanc yn yr un system cyfyngiant eilaidd

Os nad yw'r tanciau wedi'u cysylltu'n hydrolig ond maent yn yr un system cyfyngiant eilaidd, rhaid i gapasiti'r cyfyngiant fod o leiaf 25% o gyfanswm capasiti'r tanciau, neu 110% o'r tanc mwyaf, p'un bynnag yw'r mwyaf.

Os yw'r tanciau wedi'u cysylltu'n hydrolig ond wedi'u lleoli yn yr un system cyfyngiant, fe ddylid eu trin fel un tanc. Dylai capasiti'r system cyfyngiant fod yn 110% o gyfanswm capasiti'r tanciau.

Tanciau mewn systemau cyfyngiant eilaidd gwahanol

Os nad yw'r tanciau wedi'u cysylltu'n hydrolig ond maent mewn systemau cyfyngiant gwahanol, mae angen cyfyngiant o leiaf 110% o holl gyfaint y tanciau ym mhob lleoliad.

Mae'n bosibl y bydd manteision i gysylltu'r systemau cyfyngiant eilaidd.

Storio nifer o ddrymiau olew

Os ydych yn storio mwy nag un drwm ar hambwrdd diferu, rhaid i'r hambwrdd diferu allu dal 25% o holl gyfaint nifer y drymiau y gellir eu storio arno.

Sut rwy'n gwybod a yw fy nhanc deu-groen yn cydymffurfio â'r rheoliadau?

Mae'n annhebyg y bydd tanc deu-groen, a adwaenir hefyd fel tanc wal ddwbl, yn darparu cyfyngiant eilaidd digonol ar ei ben ei hun.

Mae gan danciau deu-groen danc mewnol wedi'i amgylchynu â chroen allanol ar gyfer cryfder ychwanegol. Peidiwch â chymysgu tanciau deu-groen â thanciau â byndio integredig; nid ydynt yn rhoi'r un amddiffyniad rhag colli olew o ganlyniad i orlenwi, neu ddifrod i'r tanc neu bibwaith, ac mae angen darparu cyfyngiant eilaidd, i safon Rheoliadau Storio Olew Cymru, pan fyddant yn cael eu storio uwchlaw'r ddaear.

Bydd cyfyngiant eilaidd effeithiol yn cynnwys offer cynorthwyol yn ogystal â'r tanc storio. Mae hyn yn golygu y dylai medryddion golwg a falfiau fod o fewn y system cyfyngiant eilaidd. Dylai pibellau fent ollwng yn fertigol i'r system cyfyngiant eilaidd.

Ym mha le y gallaf ddod o hyd i wybodaeth am adeiladu bwnd?

Rhaid ichi wneud yn sicr bod eich bwnd wedi'i adeiladu yn y ffordd gywir. Rhaid iddo allu gwrthsefyll tanc llawn yn methu. Gweler:

<http://www.ciria.org/ItemDetail?iProductCode=C736D&Category=DOWNLOAD&WebsiteKey=3f18c87a-d62b-4eca-8ef4-9b09309c1c91> am wybodaeth am sut i adeiladu Systemau cyfyngiant ar gyfer atal llygredd (C736D)

Beth yw'r lefel dderbyniol o anathreiddedd ar gyfer bwnd wedi'i adeiladu?

Mae'r rheoliadau'n nodi y dylai sylfaen a waliau'r cynhwysydd fod 'yn anathraidd i ddŵr ac olew'. Nid yw'r rheoliadau'n nodi unrhyw ddeunyddiau adeiladu penodol ar gyfer cynhwysydd eilaidd.

Mae'n annhebygol y byddai bwnd wedi'i adeiladu o frics a mortar, er enghraifft, yn anathraidd heb rendro mewnol neu haen arbenigol i sicrhau cyfernod anathreiddedd nad yw'n llai na 10-9 medr yr eiliad.

A wyf yn gallu cynnwys cyfaint y prif danc pan fyddaf yn cyfrifo capasiti'r cyfyngiant eilaidd?

Ydych, os nad yw'r rheoliadau'n nodi fel arall. Y cyfan maent yn ei wneud yw nodi ei bod yn 'rhaid i'r cyfyngiant eilaidd fod â chapasiti nad yw'n llai na 110% o gapasiti storio'r cynhwysydd'.

Gellir cynnwys cyfaint y prif gynhwysydd pan fydd hynny'n berthnasol.

Mae'r rhan fwyaf o systemau tanc perchnogol yn cael eu dylunio fel y mae'r olew'n dod o hyd i'w lefel ei hun yn y ddau gynhwysydd os yw'r prif gynhwysydd yn gollwng. Yn yr achos hwn, mae'r prif gynhwysydd yn cyfrannu at gyfanswm capasiti'r cyfyngiant eilaidd. Dylid ystyried y ffaith na chaiff y systemau hyn ddarparu ond 10% o gapasiti'r cyfyngiant os bydd y tanciau'n cael eu gorlenwi.

Bydd olew hefyd yn dod o hyd i'w lefel ei hun mewn bwnd traddodiadol pan fydd y tanc wedi'i leoli'n isel.

Er enghraifft, pan fydd olew'n cael ei drosglwyddo ar y gyfradd fwyaf i danc sy'n fwy na 10% yn llawn, bydd hyn yn arwain at golli olew o'r cyfyngiant eilaidd.

Mae defnyddio dyfais amddiffyn rhag gorlenwi'n arfer da, a dylech ystyried un o'r rhain neu fesurau diogelu gwrthlygredd ychwanegol, yn ogystal â chapasiti cyfyngiant ychwanegol mewn lleoliadau sensitif.

Opsiynau eraill ar gyfer cyfyngiant eilaidd

Nid yw didolydd olew yn fath o gyfyngiant eilaidd. Rydym yn ystyried y rhain yn gyfyngiant trydyddol ac nis derbynnir fel cyfyngiant o dan Rheoliadau Storio Olew Cymru.

Beth ddylwn ei wneud os nad yw fy nghyfyngiant eilaidd yn cynnig digon o gapasiti ar gyfer fy nhanc/tanciau?

Os nad yw eich cyfleusterau storio olew'n cael eu heithrio o'r rheoliadau, ac nad yw maint eich system cyfyngiant eilaidd yn bodloni'r gofynion cyfreithiol, fe fydd eich system yn dod yn anghyfreithlon yn dibynnu ar bryd y mae'n rhaid i'r system gydymffurfio – naill ai ym mis Mawrth 2018 neu erbyn 15 Mawrth 2020 fan bellaf. Dylech gynnal gwaith i sicrhau bod eich tanc yn cydymffurfio cyn gynted ag y bo modd. Ar ôl darllen hyn, os nad ydych yn sicr sut y gallwch wneud hyn, gofynnwch i wneuthurwr eich tanc neu inni am gyngor.

Nid ydym yn ystyried bod arferion rheoli sy'n cadw cyfeintiau isel mewn tanc yn ffordd barhaol o gydymffurfio â Rheoliadau Storio Olew Cymru. Fodd bynnag, gallech ddefnyddio'r arferion hyn yn ateb dros dro nes ichi wneud gwaith i sicrhau bod eich tanc yn cydymffurfio â'r rheoliadau.

Yr ateb parhaol gorau yw naill ai:

- Cynyddu maint eich cyfyngiant eilaidd trwy:
 - Adeiladu bwnd newydd mwy; neu
 - Godi uchder waliau eich bwnd cyfredol; neu

- Newid eich tanc olew a'r cyfyngiant eilaidd am system newydd sy'n cydymffurfio'n gyfreithiol.

Os nad ydych yn gallu dilyn yr opsiynau hyn, mae'n bosibl y bydd yn bosibl lleihau capasiti eich tanc er mwyn i'r cyfyngiant eilaidd fod yn gyfreithlon. Mae'n **bosibl** bod yr opsiynau'n cynnwys y canlynol:

- Rhoi sylwedd anadweithiol yn eich tanc i leihau'r cyfaint mae'r tanc yn gallu ei ddal yn barhaol.
- Newid lle mae'r bibell fent yn gadael y tanc i leihau capasiti'r tanc. Mae risgiau ynghlwm wrth y dull hwn. Os ydych yn ystyried yr opsiwn hwn, mae'n dal i fod yn ofynnol ichi sicrhau bod y bibell fent yn dal i fod o fewn y cyfyngiant eilaidd, a'i bod yn cael ei threfnu er mwyn sicrhau bod unrhyw olew'n cael ei ollwng yn fertigol tuag i lawr i'r cyfyngiant eilaidd. Dylid gosod dyfais amddiffyn rhag gorlenwi a larwm hefyd.

Dylech wirio gyda gwneuthurwr y tanc neu beiriannydd tanciau i ddysgu am yr hyn sy'n bosibl ar gyfer eich tanc chi. Efallai na fydd yn bosibl addasu rhai tanciau, neu mae'n bosibl na fydd y tanc yn gallu cynnal y pwysau ychwanegol. Ni ddylai unrhyw waith effeithio ar gyfanrwydd strwythurol neu berfformiad (amddiffyn yr amgylchedd, storio a dosbarthu) eich tanc.

Ni ddylech ganiatáu ond gweithiwr proffesiynol cymwysedig i weithio ar eich tanc neu eich bwnd. Mae cynlluniau cymhwysedd proffesiynol yn cael eu rhedeg gan sefydliadau gwahanol - gweler [Cofrestr Personau Cymwys <http://www.competentperson.co.uk/>](http://www.competentperson.co.uk/). Dylai unrhyw newidiadau i gyfyngiant eilaidd neu fyndiau wedi'u hadeiladu dilyn y canllawiau ar gyfer byndiau wedi'u gwneud o goncrid neu waith maen. Gweler:

<http://www.ciria.org/ItemDetail?iProductCode=C736D&Category=DOWNLOAD&WebsiteKey=3f18c87a-d62b-4eca-8ef4-9b09309c1c91> am wybodaeth am sut i adeiladu **Systemau cyfyngiant ar gyfer atal llygredd (C736D)**.

Os ydych yn lleihau capasiti eich tanc/tanciau, mae'n bwysig eich bod yn newid y labeli ar eich tanc ac ar bwyntiau llenwi pell, i ddangos capasiti newydd y tanc.

Offer cynorthwyol, pibellau a phympiau _____ Yn ôl i'r Dudalen Gynnwys

Dysgwch am offer cynorthwyol, pibellau a phympiau a Rheoliadau Rheoli Llygredd (Storio Olew) (Cymru) 2016.

A gaiff falf ynysu a hidlydd fod y tu allan i'r cyfyngiant eilaidd?

Cânt.

Caiff falf ynysu a hidlydd fod y tu allan i'r cyfyngiant eilaidd os yw'r falf yn tynnu olew mewn un cyfeiriad yn unig o danc parod wedi'i wneuthur â byndio integredig. Yn yr achos hwn, fe ystyrir eu bod yn gynorthwyol i'r offer lawr lif. Rhaid i'r falf ynysu fod yn hygyrch ar gyfer gwaith cynnal a chadw rheolaidd ac mewn argyfwng, felly gall fod y tu allan i'r system barod.

Dylai'r falf ynysu ar gyfer tanciau croen sengl neu wal ddwbl a leolir o fewn system cyfyngiant eilaidd wedi'u hadeiladu fod o fewn y system cyfyngiant eilaidd.

Rydym yn argymhell y rhoddir y falf ynysu o fewn y system cyfyngiant eilaidd os yw hynny'n bosibl.

Beth yw uniad mecanyddol mewn pibellau o dan ddaear?

Mae hwn yn unrhyw uniad lle mae dau ddarn o bibell neu fwy wedi cael eu cysylltu trwy ddefnyddio gosodiad. Rhaid i'r gosodiad fod wedi'i gysylltu â phen y ddwy bibell, y gellir eu datgysylltu.

Mae gosodiadau cywasgedd a gosodiadau edau'n enghreifftiau o uniadau mecanyddol.

Rhaid i uniadau ar bibellau sydd o dan ddaear gael eu gosod mewn lle sy'n hygyrch ar gyfer eu harchwilio. Rhaid profi'r pibellau am ollyngiadau cyn iddynt gael eu defnyddio am y tro cyntaf, ac wedyn bob pum mlynedd.

Nid ystyrir bod uniadau sydd wedi cael eu weldio, eu brwysio neu eu sodro neu bibellau di-dor wedi'u gwneud o fetel neu blastig yn uniadau mecanyddol.

Am ragor o wybodaeth gweler: Safon Brydeinig 5410 Rhan 1: 1997, Adran 8.2, Code of Practice for Oil Firing.

Sut y gallaf brofi fy mhibwaith am ollyngiadau?

Mae'r rheoliadau'n dweud y dylai pibellau sydd o dan ddaear gael eu profi am ollyngiadau bob pump neu ddeng mlynedd, yn dibynnu a oes uniadau mecanyddol.

Os nad yw canllawiau profi pibwaith y gwneuthurwr ar gael, gweler Safon Brydeinig 5410 Rhan 1 a 2. Mae yn y rhain wybodaeth am brofi pwysedd pibwaith ar gyfer gosodiadau tanio olew. Dylai [person cymwys](#) gynnal y profi pwysedd.

Bydd angen mathau gwahanol o brofi ar bibwaith wedi'i wneud o blastig, copr a dur, yn ogystal ag ar bibwaith o feintiau gwahanol. Rydym yn argymhell eich bod yn defnyddio'r un dull sy'n bodoli ar gyfer gosodiadau nad ydynt yn tanio olew megis cyfleusterau ail-lenwi tanwydd.

Gwnewch yn siŵr eich bod yn cadw unrhyw gofnodion o brofion pwysedd.

Sut y gallaf ddangos bod fy mhibellau dan ddaear yn cydymffurfio â Rheoliad 7(3) – dim uniadau mecanyddol – oni bai eu bod mewn lle sy'n hygyrch ar gyfer eu harchwilio?

Dylai systemau tanio olew cyfredol fod wedi'u gosod yn unol ag adrannau perthnasol Safon Brydeinig 5410, sy'n benodol i'r safle, neu'n unol â chanllawiau hawdd canlynol y Gymdeithas Dechnegol Llosgi Olew (OFTEC):

- [Canllawiau OFTEC ar Bibellau Cyflenwi Olew Domestig](#)

Mae'r safonau hyn yn pwysleisio pwysigrwydd gosod pibellau mewn dwythellau hygyrch lle bo hynny'n bosibl.

Os nad ydych yn gallu dangos bod y pibellau wedi'u gosod yn unol â'r uchod, mae'n bosibl y bydd angen rhagor o waith ymchwilio, gan ystyried hyd safonol pibellau ar gyfer y diwydiant a hygyrchedd pibellau.

A oes angen dyfais amddiffyn rhag gorlenwi ar fy nhanc?

Yn ôl y rheoliadau, os na ellir gweld y tanc a'r bibell fent o'r man lle mae'r llenwi'n cael ei reoli, yna mae angen gosod dyfais amddiffyn rhag gorlenwi awtomatig ar y tanc.

Mae stilwyr tanc gosod, sy'n anfon neges at y man lle mae'r llenwi'n cael ei reoli, yn dderbyniol.

Rydym yn annog y defnydd o ddyfeisiau amddiffyn rhag gorlenwi sy'n mynd i osodiad diogel yn ddiodyn, a larymau rhybuddio am orlenwi.

Beth yw diffiniad cyflwr da ar gyfer gosodiad sgriw ar gyfer llenwi tanc?

Nid yw'r rheoliadau'n diffinio cyflwr da. Rydym yn credu ei bod yn synhwyrol ystyried a yw gosodiad yn addas i'r diben yn ei ystyr ehangach. Dylech wneud yn siŵr y gellir defnyddio'r edau sgriw ac y gellir trosglwyddo olew i'r tanc gan ddefnyddio'r gosodiad mewn modd diogel a sicr.

Ni ddylai defnyddio'r gosodiad sgriw gynyddu'r risg o golli olew na pheri risg i iechyd a diogelwch y gweithredwr. Mae hyn yn cynnwys risgiau trwy weithio ar lefel uchel. Mae Safon Brydeinig 5410, Rhan 2: 1978, Adran 23, yn nodi bod uchder gweithio diogel ar gyfer pwyntiau llenwi tua un medr o'r ddaear.

Dylech drafod addasrwydd gosodiad sgriw'r tanc â'ch cwmni cludo olew.

A oes rhaid i'm mhwmp fod o fewn y cyfyngiant eilaidd?

Nid ydym yn ystyried bod pypiau'n offer cynorthwyol i'r cynhwysydd.

Fodd bynnag, mae'n arfer da sicrhau y byddai unrhyw olew sy'n gollwng yn cael ei gyfyngu i'r system cyfyngiant eilaidd, er enghraifft bwnd neu hambwrdd diferu, ac na allai beri llygredd.

Os yw'r pwmp ar y tanc neu'n agos iddo, er enghraifft pan fydd yn fach ac wedi'i osod ar ben y tanc, dylai gael ei leoli uwchlaw uchder y cyfyngiant eilaidd o 110%. Nid yw'r rhan fwyaf o bympiau wedi'u dylunio i weithio pan fyddant o dan olew, ond ni ddylai fod mor uchel nes na ellir ei weithredu'n ddiogel.

Pa fath o dapiau neu falfiau y gallaf eu rhoi ar ben trosglwyddo pibell ystwyll?

Yn ddelfrydol, fe ddylech ddefnyddio ffroenell sbardun ac iddi system gau awtomatig, yn debyg i'r rhai sy'n cael eu defnyddio mewn gorsafoedd petrol.

Os oes gennych ffroenell sbardun nad oes ganddi system gau awtomatig, ni ddylid bod yn bosibl ei gosod ar agor.

Ni ddylid defnyddio ffroenellau ac iddynt falfiau cau lifer – nid ydynt yn cydymffurfio â'r rheoliadau hyn.

Beth sydd angen imi ei wybod am hambyrddau diferynnau o dan y pwynt llenwi?

Yn ddelfrydol, dylai pwynt llenwi eich tanc fod o fewn y system cyfyngiant eilaidd a draenio i'r tanc storio'n awtomatig. Fel arall, bydd angen falf gau ar y bibell llenwi ar ben y gosodiad sgriw. Rhaid ichi hefyd fod â hambwrdd diferu i'w ddefnyddio pan fydd olew'n cael ei drosglwyddo i'r tanc.

Mae defnyddio hambwrdd diferu cludadwy yn dderbyniol ond mae'n rhaid ei ddefnyddio pan fydd olew'n cael ei drosglwyddo.

Os ydych yn defnyddio hambwrdd diferu parhaol, yn ddelfrydol dylai'r pwynt llenwi a'r hambwrdd fod mewn cwpwrdd (neu amddiffynfa arall) i gadw glaw, llwch a llaid allan. Dylid cadw'r cwpwrdd o dan glo i atal mynediad heb awdurdod.

Siaradwch â'ch cwmni cludo am leoliad eich hambwrdd diferu, y math o hambwrdd a gweithdrefnau.

Pa gapasiti mae'n rhaid i'm hambwrdd diferu o dan y pwynt llenwi fod?

Dylai'r hambwrdd diferu fod yn ddigon mawr i ddal olew y gellid ei golli pan fydd falf gau'r pwynt llenwi wedi cael ei chau, a'r bibell drosglwyddo wedi cael ei datgysylltu. Fel arfer, bydd hyn yn llai na phum litr, ond dylech gyfrifo'r union gyfaint ar gyfer eich pibwaith a chaniatáu capasiti ychwanegol ar gyfer lwfans diogelwch.

Rydym yn argymhell eich bod yn siarad â'ch cwmni cludo olew am y mater hwn.

Beth gallaf ei ddefnyddio'n hambwrdd diferu o dan y pwynt llenwi?

Gallech ddefnyddio unrhyw gynhwysydd sydd wedi'i ddylunio neu ei wneuthur yn benodol i gyflawni'r dasg.

Rhaid iddo fod yn ddigon cryf, wedi'i wneud o ddeunydd gwrtholew, ac yn ddelfrydol bod â dolenni ar gyfer ei godi, ei wagio a'i lanhau.

Pwy sy'n gyfrifol am wagio'r hambwrdd diferu o dan fy mhwynt llenwi?

Perchennog y tanc sy'n gyfrifol am wagio'r hambwrdd diferu neu am drefnu iddo gael ei wagio.

Dylai'r hambwrdd diferu fod yn rhydd rhag dŵr, malurion ac olew cyn i olew gyrraedd, a dylid symud unrhyw olew'n syth ar ôl i olew gyrraedd.

Os yw'r hambwrdd diferu'n lân, efallai y bydd yn bosibl ei wagio i'r tanc, ond dim ond os gellir gwneud hyn yn ddiogel ac yn hawdd heb beri'r risg o golli olew.

Mae'n bosibl y bydd eich cwmni cludo olew'n gallu mynd ag olew i fwrdd neu ddarparu gwasanaethau eraill; dylech drafod y mater hwn â nhw.

Mae mesurau rheoli cyfreithiol llym ar gyfer gwaredu a chludo olew gwastraff, yn enwedig os ydych yn ei gynhyrchu fel busnes. Rhaid ichi ddysgu am yr hyn sy'n berthnasol i'ch amgylchiadau eich hun.

Gorfodi

Yn ôl i'r Dudalen Gynnwys

Dysgwch am y cosbau am fethu â chydymffurfio â'r rheoliadau.

Sut rydym yn gorfodi'r rheoliadau?

Rydym yn gyfrifol am reoli'r rheoliadau hyn. Mae methu â chydymffurfio yn drosedd. Gallech gael dirwy o hyd at £5,000.

Os ydych yn pryderu nad yw eich cyfleusterau storio olew'n ddigonol, byddwn yn darparu cyngor a chyfarwyddyd i'ch helpu i gydymffurfio'n wirfoddol.

Gallwn ni gyflwyno hysbysiad o dan Adran 161A Deddf Adnoddau Dŵr 1991 (hysbysiad gwaith) i'ch gorfodi i wella safonau eich cyfleusterau storio olew. Mae methu â chydymffurfio â hysbysiad yn drosedd a gallai arwain at erlyniad.

Rydym hefyd yn gallu defnyddio'r sancsiynau sifil canlynol ar gyfer torri Rheoliad 9(1) Rheoliadau Storio Olew Cymru:

- Cosb ariannol benodedig
- Cosb ariannol amrywiadwy
- Gorchymyn adfer
- Hysbysiad stop
- Camau gorfodi

Dyfyniad o Reoliadau Rheoli Llygredd (Storio Olew) (Cymru) 2016. Rheoliad 9.

9—(1)(1) Mae person sydd yn torri rheoliadau 4, 5(1), 6(1), 7(1) neu 8(1) yn euog o drosedd.

(2) Mae person sy'n euog o drosedd o dan baragraff (1) yn agored, o gael euogfarn ddiannod neu o gael euogfarn ar dditiad, i ddirwy.

A yw dosbarthwyr olew'n gwneud trosedd trwy drosglwyddo olew i danc nad yw'n cydymffurfio?

Mae Llywodraeth Cymru wedi dweud na fyddai hyn yn drosedd gan mai meddu ar danc nad yw'n cydymffurfio yw'r drosedd.

Fodd bynnag, os oes digwyddiad yn peri llygredd yn ystod y broses o drosglwyddo olew, neu wedyn, fe fyddwn yn edrych yn agos iawn ar yr amgylchiadau i weld a ddefnyddiodd y dosbarthwr grebwyll priodol i benderfynu a oedd y tanc yn addas i dderbyn yr olew.

A ydym yn disgwyl i yrwyr cwmnïoedd cludo olew feddu ar wybodaeth ddigonol am y rheoliadau i adnabod tanc nad yw'n cydymffurfio â'r rheoliadau?

Rydym yn disgwyl i yrwyr fod wedi cael digon o hyfforddiant i fodloni'r gofyniad hwn. Dylai'r hyfforddiant gynnwys canllawiau priodol ynglŷn â'r diwydiant. Mae gywyr yn defnyddio synnwyr cyffredin pan fyddant yn ymdrin â chynnyrch sy'n cael effaith fawr ar yr amgylchedd.

Pwy sy'n gyfrifol am danc wedi'i roi ar fenthyg i gwsmer?

Byddai hyn yn dibynnu ar ddiffiniad rhoi ar fenthyg a pha gytundebau ac amodau sy'n gysylltiedig â'r benthygiad.

Ni fyddai cwmni sy'n cyflenwi tanc heb fyndio i gwsmer yn torri'r rheoliadau; dylai'r cwmni nodi nad yw'r tanc yn cydymffurfio heb gyfyngiant eilaidd. Gweithredwr y safle sy'n gyfrifol (neu'r unigolyn

sy'n cadw neu reoli'r olew). Caiff cyflenwr ddarparu tanc heb gyfyngiant eilaidd i gwsmer ei osod mewn bwnd.

Rydym yn annog cwsmeriaid i dderbyn tanciau sy'n cynnwys offer byndio yn unig er mwyn cydymffurfio â'r rheoliadau.

Beth yw'r gofynion cyfreithiol ar gyfer cynnal a chadw tanciau?

Nid oes unrhyw ofynion cyfreithiol ar gyfer cynnal a chadw tanciau. Ar gyfer cyfarwyddyd, darllenwch Above Ground Storage – Pollution Prevention Guidance (PPG), Nodyn 2:

- <http://www.netregs.org.uk/media/1299/gpp-2-pdf.pdf>

Dylai technegwyr cymwysedig gynnal gwiriad blynyddol o osodiadau pan fyddant yn cynnal archwiliad rheolaidd o fwyl, ac maent hefyd yn llunio rhestr gwirio tanc.

Rydym yn disgwyl i wiriadau gweledol gael eu cynnal o leiaf unwaith yr wythnos, ac rydym yn annog gwneud gwiriadau tanc yn rhan o'r amserlen gynnal a chadw rheolaidd. Am ragor o wybodaeth, darllenwch wybodaeth am wiriadau rheolaidd ar wefn Oil Care Campaign:

- [Oil Care, Regular tank checks](#)